# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

**Mae Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon i'r rhai mewn angen.**

- Mae'r Gyfadran Gwasanaethau i Blant yn darparu ystod o wasanaethau i blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, mewn partneriaeth â llawer o asiantaethau a sefydliadau gwirfoddol eraill. Ein nod cyffredinol yw helpu plant a phobl ifanc i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd eu hunain, lle bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny.
- Mae'r Gyfadran Gwasanaethau i Oedolion yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol i aelodau'r gymuned dros ddeunaw oed sy'n cael anawsterau o ddydd i ddydd oherwydd amrywiaeth o faterion.

Os yw'n gymwys i gael cymorth, gall hyn fod drwy wasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu'n allanol neu wasanaeth arall sydd â'r arbenigedd cywir i ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi.

Er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn, efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth amdanoch chi a/neu'ch teulu chi, yn uniongyrchol oddi wrthych chi neu gan eraill. Dim ond gwybodaeth berthnasol y byddwn ni'n ei chasglu a'r sail gyfreithiol i ni goladu a defnyddio'r wybodaeth hon yw tasg gyhoeddus.



Bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei storio'n ddiogel a'i chadw yn unol â'n polisi cadw ni. Mae hyn yn golygu y byddwn ni ond yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag sydd angen.

Mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth chi ei rhannu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill, os oes angen gwneud hynny. Bydd yr holl rannu gwybodaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

**I gael gwybod sut rydyn ni'n casglu ac yn prosesu gwybodaeth sy'n cael ei chadw yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltwch â Thîm Cwynion a Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol:**

**CwynionaGwybodaethGC @caerffili.gov.uk**

**0800 328 4061**

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth chi'n cael ei phrosesu.

**Am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth chi ac am eich hawliau chi, ewch i'r wefan:**

**www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Social-services-privacy-notice_cy.aspx**

# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd



Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i gael pethau'n iawn

16620